## Mae pob croesfan wastad yn wahanol. Cymerwch amser i ddarllen yr arwyddion a dilynwch y cyfarwyddiadau ar sut i groesi'n ddiogel.

Mae eu hanwybyddu'n peryglu'ch bywyd chi a bywydau pobl eraill. Gallech hefyd fod yn torri'r gyfraith.

Mae llawer o ddamweiniau fu bron â digwydd a marwolaethau pob blwyddyn.

Rhaid i chi, eich teulu a'ch ffrindiau ddeall a pharchu'r rheolau er mwyn croesi'n ddiogel.



## Cysylltu â ni

@networkrail

www.networkrail.co.uk


03457 11 41 41

**Stopiwch, edrychwch a gwrandewch wrth groesfannau gwastad**

NetworkRail

# Arhoswch yn ddiogel wrth groesfannau gwastad.

# Stopiwch, edrychwch a gwrandewch.



**Stopiwch, edrychwch a gwrandewch wrth groesfannau gwastad**

3062_LX_All_Leaflet_6pp_DV1_Welsh.indd 3 29/04/2025 11:34

# Chwalu'r mythau

**Myth 1:** Dydy trenau ddim yn rhedeg ar ddydd Sul.

**Ffaith:** Mae trenau'n rhedeg trwy'r dydd pob dydd.

**Myth 2:** Gall trenau arafu os ydyn nhw'n fy ngweld.

**Ffaith:** Mae'n cymryd mwy na 320 o fetrau i 400 o dunelli o ddur sy'n mynd ar 60mya stopio. All neb eich gweld o 320 o fetrau i ffwrdd, heb sôn am stopio trên.

**Myth 3:** Heddiw, gyda thechnoleg fodern, bydd rhwystrau'n fy synhwyro a'm rhybuddio'n awtomatig os oes trên yn dod.

**Ffaith:** Ni all rhwystrau synhwyro pobl na dim byd arall sy'n mynd heibio iddynt. Maen nhw yno i'ch cadw ar bellter diogel o drên sy'n mynd heibio.

**Myth 4:** Dim ond un trên sy'n mynd heibio ar y tro.

**Ffaith:** Mae trenau'n rhedeg trwy'r dydd pob dydd, dau ar y tro yn aml.

**Myth 5:** Dim ond rhybudd yw'r goleuadau sy'n fflachio. Maen nhw'n golygu bod gen i ddigon o amser i groesi.

**Ffaith:** Mae'r goleuadau sy'n fflachio yn golygu bod trên yn nesáu, felly mae angen ichi aros mewn lle diogel y tu ôl i'r llinell.

# Sut ydw i'n gyrru dros groesfan wastad yn ddiogel?




### Canolbwyntiwch

Byddwch yn ofalus wrth ddod at groesfan wastad, yn arbennig mewn tywydd gwael. Wyddoch chi byth pryd y bydd y goleuadau'n dechrau fflachio a bydd angen ichi ymateb i hynny.




### Gyrrwch yn araf

Peidiwch â dechrau croesi nes bod y ffordd allan yn glir. Gwnewch yn siŵr bod digon o le rhyngoch chi a'r cerbyd o'ch blaen.



### Gwyliwch am y goleuadau

Os yw'r goleuadau rhybuddio'n fflachio:

- Stopiwch, peidiwch â chroesi
- Arhoswch nes bod y goleuadau wedi stopio fflachio.



### Gwyliwch am rwystrau

Mae gwahanol fathau o rwystrau

- Peidiwch â rhuthro ar draws wrth i'r rhwystr ddod i lawr
- Arhoswch nes bydd y rhwystr wedi codi'n llwyr
- Peidiwch â mynd igam-ogam o gwmpas y rhwystrau.

**Cofiwch, efallai bod mwy nag un trên yn dod.**

3062_LX_All_Leaflet_6pp_DV1_Welsh.indd 28-30 29/04/2025 11:34